# <u>Cynnal Gwyl Gelfyddyd Prifysgol Aberystwyth!</u>

Pasiwyd gan:  Y Senedd

Pasiwyd ar: 04/11/2019

Yn darfod ar:  **04/11/2022**

Swyddog sy'n gyfrifol: Swyddog Cyfleoedd

## Crynodeb

Cynnal Gwyl Gelfyddyd Prifysgol Aberystwyth a gynhelir gan Undeb y Myfyrwyr i ddod â myfyrwyr a chymdeithasau sydd wedi'u dadrithio yn nes at Undeb y Myfyrwyr, rhoi cyfle arall i gymdeithasau chwarae mwy o ran a dathlu / cynrychioli'r celfyddydau ar y campws yn ogystal â chwaraeon.

## Manylion

Mae Undeb y Myfyrwyr yn cynnal amryw o ddigwyddiadau chwaraeon, er enghraifft Superteams a Rhyngolgampau Farsiti, ond nid oes llawer o ddigwyddiadau sy'n canolbwyntio ar Gymdeithasau, a llai fyth yn ymwneud â'r celfyddydau. Rydym yn sylweddoli bod Her Aber yn canolbwyntio mwy ar gymdeithasau, fodd bynnag yn achos y celfyddydau, mae cyfle i fyfyrwyr arddangos eu gwaith eu hunain a dathlu'r gwaith hwnnw (cerddoriaeth, ffilm, drama, dawns, crefftau a.y.b.) drwy berfformio ac arddangos, yn rhywbeth y byddem yn ei groesawu, gan greu cryn gyffro i'r mwyafrif o gymunedau ac unigolion artistig. Er ei bod yn annheg cymharu timau chwaraeon a chymdeithasau mewn ffordd mor ddu a gwyn, dyma sut mae Undeb y Myfyrwyr yn cael ei ystyried yn aml gan fwyafrif y myfyrwyr yr wyf yn eu hadnabod beth bynnag, p'un ai oes ganddyn nhw ffocws artistig neu beidio.
Byddai Gwyl Gelf nid yn unig yn dod â myfyrwyr a chymdeithasau artistig a chreadigol Aberystwyth yn nes at Undeb y Myfyrwyr ac yn dileu unrhyw ddadrithiad a allai fod, ond byddai hefyd yn denu aelodau o'r cyhoedd i arddangos eu gwaith yn yr un modd a mwynhau a gwerthfawrogi celf a chreadigrwydd yn ogystal.
Wrth eu hastudio'n academaidd, mae'r celfyddydau'n gallu lleddfu pryder ac yn helpu gyda phroblemau iechyd meddwl fel iselder. Mae mwy i'r celfyddydau na hobi y mae pobl yn ei wneud yn ogystal ag astudiaethau a gwaith; maent yn rhan bwysig o fywyd modern, gan gynnwys materion modern ac felly dylid eu cynrychioli a'u dathlu yn yr un modd.
Yn ddelfrydol, gallai'r digwyddiad hwn gynnwys arddangosfa yn ystod y dydd, a pherfformiad gyda'r nos gan gymdeithasau ac unigolion sy'n barod i arddangos eu creadigrwydd a'u celf; efallai hyd yn oed ychydig o weithdai cyhoeddus wedi'u rhedeg gan gymdeithasau sy'n fodlon cymryd rhan. Dim ond newydd ei ffurfio mae'r syniad; os caiff ei dderbyn gan y Senedd yna gellir mireinio manylion pellach.
Yn ddelfrydol, gallai llywyddion cymdeithasau creadigol / artistig a'r Swyddog Cyfleoedd weithio gyda'i gilydd i gynnal y digwyddiad hwn, neu gellid ffurfio pwyllgor myfyrwyr yn benodol ar gyfer y digwyddiad.

Submitted By: Iris Kalian

# Rhestr Weithredu

| Camau a gymerwyd | Enw a Rôl | Dyddiad |
|---|---|---|
| Cynhaliodd UMAber Wyl Gelf Prifysgol Aberystwyth am y tro cyntaf ym mis Mawrth 2021. Roedd y digwyddiad yn cynnwys oriel ar-lein oedd yn arddangos darnau oedd wedi cael eu cyflwyno gan fyfyrwyr.<br>Byddwn nawr yn mynd ati i adolygu'r wyl eleni cyn trafod cynlluniau gyda'r Swyddog Cyfleoedd ar gyfer 2021/22. | | |